# Atodiad 1 | Pwyllgor Democratiaeth

## Y Rôl

Prif gyfrifoldeb y Pwyllgor Democratiaeth yw cynorthwyo Cadeirydd yr Undeb wrth gynnal Cyngor yr Undeb yn effeithiol. Mae gan y Pwyllgor Democratiaeth 6 aelod a gaiff eu hethol bob blwyddyn academaidd yn ein cyfarfod cyntaf.

Ynghyd â Chadeirydd yr Undeb, maent yn cyfarfod o leiaf 10 gwaith y flwyddyn i sicrhau bod eich syniadau'n mynd drwy'r sianel gywir, i'ch cynorthwyo chi yn ystod cyfarfodydd democrataidd ac i glustnodi'r holl bolisïau a gymeradwywyd i'r swyddog priodol.

Yn fras, mae gofyn i'r Pwyllgor Democratiaeth wneud y canlynol:

1. Cynorthwyo a chefnogi Cadeirydd yr Undeb i weithredu Cyngor yr Undeb yn ddi-drafferth.
2. Cynorthwyo'r Cadeirydd i drefnu cyfarfodydd a syniadau ar gyfer Cyngor yr Undeb.
3. Clustnodi'r holl bolisïau a gweithredoedd a gymeradwywyd i'r Swyddogion priodol.

Mae'n swydd wirfoddol a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ynghyd â'u hastudiaethau. Darperir hyfforddiant ar gyfer pob swyddog etholedig, ynghyd â chefnogaeth ac arweiniad i weithredu eu swyddogaeth a throi eu hamcanion yn realiti.

## Ein haddewid i chi

Pwy bynnag fydd yn ymuno â'r Pwyllgor Democratiaeth, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Rydym yn addo i bob un o'n haelodau pwyllgor y byddant yn mwynhau eu hamser yn fawr, yn dysgu cryn lawer o sgiliau ac yn ymestyn eu gwybodaeth. Os oes angen ychydig mwy o ddarbwyllo arnoch, dyma rai o'r pethau y byddwch yn eu hennill a'u gwella drwy weithio gyda ni:

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Gwaith tîm
- Cadeirio cyfarfodydd